## ATODLEN 3

Rheoliad 19

### Trwyddedau, etc.

**1.** Mae'r canlynol yn drwyddedau at ddibenion rheoliad 19(3) i'r graddau y maent yn ymwneud â gweithgaredd yn Atodlen 2—

(a) trwydded a roddir o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007(**1**) neu gofrestriad o dan y Rheoliadau hynny;

(b) trwydded a roddir o dan Ran II o Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985(**2**);

(c) cydsyniad gollwng dŵr, gorchymyn sychder cyffredin neu orchymyn sychder brys neu drwydded sychder o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**3**);

(ch) awdurdodiad o dan Reoliadau Dŵr Daear 1998(**4**);

(d) trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991;

(dd) cymeradwyaeth o blaleiddiad o dan Reoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986(**5**), awdurdodiad o gynnyrch bywleiddiol o dan Reoliadau Cynhyrchion Bywleiddiol 2001(**6**) neu awdurdodiad o blaleiddiad o dan Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005(**7**).

(**1**) O.S. 2007/3538.
(**2**) 1985 p.48.
(**3**) 1991 p.57, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).
(**4**) O.S. 1998/2746 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/3538.
(**5**) O.S. 1986/1510 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2001/880 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2005/1435 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.